Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Dilys Vaughan (Saron) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am ychydig ddyddiau yn dilyn anffawd noswyl Nadolig ond sy'n cael gofal erbyn hyn yn yr Inffirmari, a hefyd Eirlys Owen (Llannefydd) sydd heb fod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar ac sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn y ddwy ohonoch i ofal Duw a gweddïwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle byddwch yn cryfhau ac yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu. Anfonwn ein cofion hefyd at Lowri Gwyn Rossington (Llanfair) fu yn yr ysbyty am rai dyddiau cyn y Nadolig. Dymunwn wellhad buan iawn i tithau Lowri.

Anfonwn ein cofion at bawb arall o'r ofalaeth, ac yn arbennig felly y rhai ohonoch sydd heb fod yn dda eich iechyd ar hyn o bryd. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddwch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn y byddwch yn profi Duw yn agos a'ch bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i Aled Williams (Hiraethog) a Sioned ar eu dyweddïad.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (17eg), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3 Ionawr 2021

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Er ei fod yn teimlo'n chwithig ei ddweud ar hyn o bryd gyda'n sefyllfa fel ag y mae hi, gan mai hwn yw rhifyn cyntaf Llais Bro Aled eleni, hoffwn ddymuno blwyddyn newydd fendithiol i chi a'ch teuluoedd. Dwi'n dweud blwyddyn newydd fendithiol yn hytrach na blwyddyn newydd dda, oherwydd gall y Duw hollalluog ein bendithio mewn ffyrdd annisgwyl ac amrywiol hyd yn oed pan nad yw pethau'n dda arnom ni na'r byd o'n cwmpas. Dyma dystiolaeth pobl yr Arglwydd ar draws y canrifoedd, ac mae'n rhywbeth y dylai pob Cristion ddal gafael arno wrth i ni gychwyn blwyddyn newydd.

Mae'n debyg y bydd yna lawer o raglenni teledu ac erthyglau yn cael eu cyhoeddi dros y dyddiau nesaf yn edrych yn ôl dros y flwyddyn aeth heibio gan geisio dysgu gwersi i ni ar gyfer y dyfodol. Byddant yn gwneud hyn gan gyfaddef i 2020 fod yn un o'r blynyddoedd mwyaf rhyfedd ers cyn cof. Ond ym mhob rhan o fywyd mae ystyried a phwyso a mesur yr hyn ddigwyddodd yn werthfawr gan mai dyma'r ffordd yr ydym yn dysgu ac yn aeddfedu. Fel y gall hedfan mewn awyren roi darlun cliriach i ni o'r tir o'n cwmpas, felly hefyd mae'r olwg a gaiff y Cristion ar ddaioni Duw yn fwy eglur wrth iddo godi ei ben uwchlaw dryswch y presennol.

Ystyriwch eiriau'r Apostol Paul ar ddechrau ei ail lythyr at y Corinthiaid. Wrth ysgrifennu atynt, nid yw'n ceisio honni fod popeth wedi bod yn dda arno: *'Yr ydym am i chwi wybod, gyfeillion, am y gorthrymder a ddaeth i'n rhan yn Asia, iddo ein trechu a'n llethu mor llwyr nes inni anobeithio am gael byw hyd yn oed.'*
(2 Corinthiaid 1:8)

Tybed faint ohonom sydd wedi profi teimladau tebyg yn ystod 2020, gyda'r amgylchiadau fel petaent bron â'n llethu'n llwyr? Ond i'r rhai sydd â'u ffydd yn Iesu Grist, y Gwaredwr, nid yw unrhyw sefyllfa'n gwbl anobeithiol, a dyna mae Paul am ei bwysleisio:

'... yr amcan oedd ein cadw rhag ymddiried ynom ein hunain, ond yn y Duw sy'n cyfodi'r meirw. Gwaredodd ef ni gynt oddi wrth y fath berygl marwol, ac fe'n gwared eto; ynddo ef y mae ein gobaith.' (2 Corinthiaid 1:9-10)

Sut bynnag y bu 2020 i chi, ac er yr anawsterau a'r ansicrwydd sy'n debygol o barhau, cofiwn nad yw daioni Duw wedi ei atal ac nid yw'n gobaith fel Cristnogion wedi dod i ben ychwaith. *'Ond yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni.' (Rhufeiniaid 8:37)*

Rhodri

I'w osod yn fuan – Tŷ Capel, Saron

Dwy lofft, gwres canolog a lle parcio. Cysyllter â Helen Jones am fwy o fanylion (01745 550327 / 07867 984373).

Ydach chi'n defnyddio e-bost?

Os oes mwy ohonoch yn defnyddio e-bost erbyn hyn a'ch bod yn fodlon inni anfon Llais Bro Aled i chi trwy'r cyfrwng yma, wnewch chi anfon neges i mair@eglwysibroaled.com, os gwelwch yn dda?

Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwylio'r oedfa a ddarlledir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael**. Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan www.gair.cymru ac ar wefan www.holi-cymru.org.

Cyhoeddiadau'r Fro

*Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael gwybod pryd fydd yr **Ysgol Sul ar-lein** yn ailgychwyn.*

Sul – 3ydd
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno â ni. Os na allwch ymuno bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)*
- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled** (ar ZOOM)
  Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ymuno am sgwrs ar ZOOM. (*Cliciwch ar y llun 'Sgwrs Bore Sul Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)*

Mercher – 6ed
- **Grwpiau Tai** (ar ZOOM)

Iau – 7fed
- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn (Cefn Meiriadog)** yng nghwmni Mr Arfon Jones ar ZOOM am 7:00 yr hwyr. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno. Cysylltwch â Haf Evans, Tan y Graig i gael y manylion cysylltu (01745 582215).

Sul – 10fed
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno â ni. Os na allwch ymuno bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)*

Mercher – 13eg
- **Cyfarfod Gweddi**
  Mae croeso i chi ymuno yn y Cyfarfod Gweddi fydd yn cael ei gynnal am 7:30 yr hwyr ar ZOOM. Holwch Rhodri neu Mair i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.

Sul – 17eg
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Gweler isod.)*
- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled** (ar ZOOM)
  Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ymuno am sgwrs ar ZOOM. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun perthnasol ar y dudalen flaen i ymuno â ni ar gyfer y ddau ddigwyddiad uchod.)*